

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(f) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU A LLOEGR**

**Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu
(Cwynion Penodedig) (Diwygiadau
a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru)
2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddwy set o Reoliadau a wnaed o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n rheoleiddio darparu gwasanaethau mabwysiadu a maethu a ddarperir gan awdurdodau lleol, a dwy set o Reoliadau a wnaed o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") sy'n rheoleiddio darparu gwasanaethau mabwysiadu a maethu a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig sydd wedi eu cofrestru o dan ddarpariaethau Deddf 2016.

Mae'r diwygiadau yn mewnosod darpariaeth newydd yn y trefniadau ar gyfer cynnal a gweithredu polisi a gweithdrefn gwyno y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig eu gwneud i gynnwys darpariaeth ynghylch trefniadau i ymchwilio ac ymateb i gwynion penodedig.

Mae'n ofynnol i bob ddarparwr gwasanaethau mabwysiadu a maethu sicrhau bod y trefniadau y maent yn eu gwneud ar gyfer ystyried cwynion yn cynnwys darparu ar gyfer ymdrin â chwynion penodedig y mae rhaid iddynt gynnwys y gofyniad ar gyfer penodi person annibynnol i ymgymryd ag ymchwiliad ac ymateb ar y cyd i gŵyn o'r fath.

Mae cwynion penodedig yn ymwneud â phenderfyniadau a wneir gan ddarparwyr gwasanaethau sy'n dyfarnu:

(a) nad yw person yn addas, neu nad yw'n addas mwyach, i fod yn rhiant maeth (o gwbl neu ar yr un telerau);

(b) nad yw person yn addas, neu nad yw'n addas mwyach, i fod yn rhiant mabwysiadol;

(c) ar yr ymateb i gais o dan adran 61(4) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth a ddiogelir am oedolion.

Mae'r penderfyniadau hyn yn cyd-fynd yn fras â'r penderfyniadau a oedd yn "penderfyniadau cymhwysol" at ddibenion Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/746 (Cy. 75)) ("Rheoliadau 2010"). Mae Rheoliadau 2010 wedi eu dirymu gan Ran 3 a'r Atodlen (yn ddarostyngedig i'r arbedion a bennir yn rheoliad 6).

Mae Rhan 4 yn gwneud diwygiadau sydd o ganlyniad i ddirymu Rheoliadau 2010.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(f) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU A LLOEGR**

**Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu
(Cwynion Penodedig) (Diwygiadau
a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru)
2020**

Gwnaed ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 9(1)(a), 10, 12, 140(7) ac (8) a 142(5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(1), adrannau 87, 93(1), 94A a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(2), ac adrannau 27(1) a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(3) (“Deddf 2016”).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny y maent yn meddwl eu bod yn briodol, fel sy'n ofynnol gan adran 27(4)(a) o Ddeddf 2016 ac wedi cyhoeddi datganiad ynghylch yr ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan adran 27(4)(b) o'r Ddeddf honno.

-
- (1) 2002 p. 38 (“Deddf 2002”). *Gweler* y diffiniadau o “regulations”, “appropriate Minister” a “the Assembly” yn adran 144(1) o Ddeddf 2002. Trosglwyddwyd y pŵer a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2002 i Weiniogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Diwygiwyd adran 12 o Ddeddf 2002 gan adran 57 o Ddeddf Plant 2004 (p. 31) a chan adran 34 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).
- (2) 2014 dccc 4. *Gweler* adran 197(1) am y diffiniad o “rheoliadau” a “penodedig”, “a bennir” ac “a bennwyd”.
- (3) 2016 dccc 2. *Gweler* adran 189 am y diffiniad o “a ragnodir” a “rhagnodedig”.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod y datganiad gerbron Senedd Cymru fel sy'n ofynnol gan adran 27(5) o'r Ddeddf honno.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(f) o Ddeddf 2016 ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar [*mewnosoder y dyddiad*].

RHAN 2

Cwynion penodedig

Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018

2.—(1) Mae Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 39 (polisi a gweithdrefnau cwyno)—

(a) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

“(5A) Rhaid i'r polisi cwyno gynnwys gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion penodedig a wneir i'r darparwr awdurdod lleol gan bersonau y mae paragraff (5C) yn gymwys iddynt.

(5B) Mae cwyn yn gŵyn benodedig os yw'n ymwneud â phenderfyniad (ac eithrio penderfyniad a wneir yn unol â rheoliad 7(11) o Reoliadau 2018) a wneir gan ddarparwr awdurdod lleol—

(a) yn unol â rheoliad 8(8) neu (9)(b) o Reoliadau 2018 (cymeradwyo rhieni maeth) nad yw'r darparwr awdurdod lleol yn ystyried bod person yn addas i weithredu fel rhiant maeth;

(b) bod y darparwr awdurdod lleol, yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan y darparwr awdurdod lleol yn unol â

(1) O.S. 2018/1339 (Cy. 261).

rheoliad 9 o Reoliadau 2018 (adolygu a therfynu cymeradwyaeth), wedi penderfynu yn unol â pharagraff (9) neu (10) o'r rheoliad hwnnw i derfynu, neu i ddiwygio telerau cymeradwyaeth person fel un sy'n addas i weithredu fel rhiant maeth.

(5C) Caniateir i gŵyn benodedig gael ei gwneud gan—

- (a) yn achos penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (5B)(a), y person sy'n ceisio cymeradwyaeth i weithredu fel rhiant maeth;
- (b) yn achos penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (5B)(b), y rhiant maeth.”;

(b) ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

“(6A) Rhaid i'r darparwr awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau a wneir ar gyfer ymdrin â chwynion penodedig yn cynnwys trefniadau—

- (a) ar gyfer penodi person—
 - (i) nad yw'n cael ei reoli yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol gan y darparwr awdurdod lleol, a
 - (ii) sydd â lefel briodol o wybodaeth, sgiliau a phrofiadi weithredu fel ymchwilydd annibynnol y mae rhaid iddo, ynghyd â'r darparwr awdurdod lleol, ystyried y gŵyn a darparu ymateb iddi;
- (b) i'r darparwr awdurdod lleol a'r ymchwilydd annibynnol ymgymryd ag ymchwiliad ar y cyd i'r gŵyn mewn modd sy'n briodol i ddatrys y gŵyn yn gyflym ac yn effeithlon;
- (c) i'r person sy'n gwneud cwyn benodedig gael ei hysbysu'n rheolaidd, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, am hynt yr ymchwiliad;
- (d) i ymateb ysgrifenedig gael ei ddarparu i'r person sy'n gwneud cwyn benodedig sy'n crynhoi natur a sylwedd y gŵyn, y casgliadau ac unrhyw gamau gweithredu sydd i'w cymryd o ganlyniad i'r ymchwiliad.”

Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

3.—(1) Mae Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 42 (polisi a gweithdrefnau cwyno)—

(a) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

“(5A) Rhaid i'r polisi cwyno gynnwys gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion penodedig a wneir i'r darparwr gwasanaeth gan bersonau y mae paragraff (5C) yn gymwys iddynt.

(5B) Mae cwyn yn gŵyn benodedig os yw'n ymwneud â phenderfyniad (ac eithrio penderfyniad a wneir yn unol â rheoliad 7(11) o Reoliadau 2018) a wneir gan ddarparwr gwasanaeth—

(a) yn unol â rheoliad 8(8) neu (9)(b) o Reoliadau 2018 (cymeradwyo rhieni maeth) nad yw'r darparwr gwasanaeth yn ystyried bod person yn addas i weithredu fel rhiant maeth;

(b) bod y darparwr gwasanaeth, yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan y darparwr gwasanaeth yn unol â rheoliad 9 o Reoliadau 2018 (adolygu a therfynu cymeradwyaeth), wedi penderfynu yn unol â pharagraff (9) neu (10) o'r rheoliad hwnnw i derfynu, neu i ddiwygio telerau cymeradwyaeth person fel un sy'n addas i weithredu fel rhiant maeth.

(5C) Caniateir i gŵyn benodedig gael ei gwneud gan—

(a) yn achos penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (5B)(a), y person sy'n ceisio cymeradwyaeth i weithredu fel rhiant maeth;

(b) yn achos penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (5B)(b), y rhiant maeth.”;

(b) ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

“(6A) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y trefniadau a wneir ar gyfer ymdrin â chwynion penodedig yn cynnwys trefniadau—

(a) ar gyfer penodi person—

(1) O.S. 2019/169 (Cy. 42).

- (i) nad yw'n cael ei reoli yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol gan y darparwr gwasanaeth, a
 - (ii) sydd â lefel briodol o wybodaeth, sgiliau a phrofiad
- i weithredu fel ymchwilydd annibynnol y mae rhaid iddo, ynghyd â'r darparwr gwasanaeth, ystyried y gŵyn a darparu ymateb iddi;
- (b) i'r darparwr gwasanaeth a'r ymchwilydd annibynnol ymgymryd ag ymchwiliad ar y cyd i'r gŵyn mewn modd sy'n briodol i ddatrys y gŵyn yn gyflym ac yn effeithlon;
 - (c) i'r person sy'n gwneud cwyn benodedig gael ei hysbysu'n rheolaidd, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, am hynt yr ymchwiliad;
 - (d) i ymateb ysgrifenedig gael ei ddarparu i'r person sy'n gwneud cwyn benodedig sy'n crynhoi natur a sylwedd y gŵyn, y casgliadau ac unrhyw gamau gweithredu sydd i'w cymryd o ganlyniad i'r ymchwiliad."

Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019

4.—(1) Mae Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 31 (polisi a gweithdrefn gwyno), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Rhaid i'r trefniadau a wneir gan ddarparwr gwasanaeth yn unol â pharagraff (2) gynnwys trefniadau i ymchwilio ac ymateb i gwynion penodedig a wneir gan bersonau y mae paragraff (2C) yn gymwys iddynt.

(2B) Mae cwyn yn gŵyn benodedig os yw'n ymwneud â phenderfyniad a wneir gan ddarparwr gwasanaeth—

- (a) yn unol â rheoliad 30B(9) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(2) (penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu) nad yw'r darparwr gwasanaeth yn ystyried bod y darpar fabwysiadu yn addas i fod yn rhiant mabwysiadol;

(1) O.S. 2019/291 (Cy. 69).

(2) O.S. 2005/1313 (Cy. 95).

- (b) yn unol â rheoliad 30CH(10) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (adolygu a therfynu cymeradwyaeth), yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliad hwnnw, fod y darparwr gwasanaeth yn ystyried nad yw darpar fabwysiad ydd yn addas mwyach i fod yn rhiant mabwysiadol;
- (c) yn unol ag adran 61(4) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(1) (datgelu gwybodaeth a ddiogelir am oedolion)—
- (i) i beidio â bwrw ymlaen â chais gan unrhyw berson i wybodaeth a ddiogelir gael ei datgelu (o fewn ystyr y Ddeddf honno),
 - (ii) i ddatgelu gwybodaeth i geisydd am berson pan yw'r person hwnnw wedi cadw'n ôl gydsyniad i'r wybodaeth gael ei datgelu,
 - (iii) i beidio â datgelu gwybodaeth am berson i'r ceisydd pan fo'r person hwnnw wedi cydsynio i wybodaeth gael ei datgelu.

(2C) Caniateir i gŵyn benodedig gael ei gwneud gan—

- (a) yn achos penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2B)(a), y darpar fabwysiad ydd;
- (b) yn achos penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2B)(b), y darpar fabwysiad ydd;
- (c) yn achos penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2B)(c)(i) neu (iii), y ceisydd;
- (d) yn achos penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2B)(c)(ii) neu (iii), y person y mae'r wybodaeth a ddiogelir yn ymwneud ag ef.

(2D) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y trefniadau a wneir ar gyfer ymdrin â chwynion penodedig yn cynnwys trefniadau—

- (a) ar gyfer penodi person—
 - (i) nad yw'n cael ei reoli yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol gan y darparwr gwasanaeth, a
 - (ii) sydd â lefel briodol o wybodaeth, sgiliau a phrofiad

- i weithredu fel ymchwilydd annibynnol y mae rhaid iddo, ynghyd â'r darparwr gwasanaeth, ystyried y gŵyn a darparu ymateb iddi;
- (b) i'r darparwr gwasanaeth a'r ymchwilydd annibynnol ymgymryd ag ymchwiliad ar y cyd i'r gŵyn mewn modd sy'n briodol i ddatrys y gŵyn yn gyflym ac yn effeithlon;
 - (c) i'r person sy'n gwneud cwyn benodedig gael ei hysbysu'n rheolaidd, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, am hynt yr ymchwiliad;
 - (d) i ymateb ysgrifenedig gael ei ddarparu i'r person sy'n gwneud cwyn benodedig sy'n crynhoi natur a sylwedd y gŵyn, y casgliadau ac unrhyw gamau gweithredu sydd i'w cymryd o ganlyniad i'r ymchwiliad.”.

Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

5.—(1) Mae Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 33 (polisi a gweithdrefn gwyno), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Rhaid i'r trefniadau a wneir gan ddarparwr gwasanaeth yn unol â pharagraff (2) gynnwys trefniadau i ymchwilio ac ymateb i gwynion penodedig a wneir gan bersonau y mae paragraff (2C) yn gymwys iddynt.

(2B) Mae cwyn yn gŵyn benodedig os yw'n ymwneud â phenderfyniad a wneir gan ddarparwr gwasanaeth—

- (a) yn unol â rheoliad 30B(9) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(2) (penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu) nad yw'r darparwr gwasanaeth yn ystyried bod y darpar fabwysiadydd yn addas i fod yn rhiant mabwysiadol;
- (b) yn unol â rheoliad 30CH(10) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (adolygu a therfynu cymeradwyaeth), yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliad

(1) O.S. 2019/762 (Cy. 145).
 (2) O.S. 2005/1313 (Cy. 95).

hwinnw, fod y darparwr gwasanaeth yn ystyried nad yw darpar fabwysiad ydd yn addas mwyach i fod yn rhiant mabwysiadol;

- (c) yn unol ag adran 61(4) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(1) (datgelu gwybodaeth a ddiogelir am oedolion)—
- (i) i beidio â bwrw ymlaen â chais gan unrhyw berson i wybodaeth a ddiogelir gael ei datgelu (o fewn ystyr y Ddeddf honno),
 - (ii) i ddatgelu gwybodaeth i geisydd am berson pan yw'r person hwinnw wedi cadw'n ôl gydsyniad i'r wybodaeth gael ei datgelu,
 - (iii) i beidio â datgelu gwybodaeth am berson i'r ceisydd pan fo'r person hwinnw wedi cydsynio i wybodaeth gael ei datgelu.

(2C) Caniateir i gŵyn benodedig gael ei gwneud gan—

- (a) yn achos penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2B)(a), y darpar fabwysiad ydd;
- (b) yn achos penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2B)(b), y darpar fabwysiad ydd;
- (c) yn achos penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2B)(c)(i) neu (iii), y ceisydd;
- (d) yn achos penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2B)(c)(ii) neu (iii), y person y mae'r wybodaeth a ddiogelir yn ymwneud ag ef.

(2D) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y trefniadau a wneir ar gyfer ymdrin â chwynion penodedig yn cynnwys trefniadau—

- (a) ar gyfer penodi person—
 - (i) nad yw'n cael ei reoli yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol gan y darparwr gwasanaeth, a
 - (ii) sydd â lefel briodol o wybodaeth, sgiliau a phrofiad
- i weithredu fel ymchwilydd annibynnol y mae rhaid iddo, ynghyd â'r darparwr gwasanaeth, ystyried y gŵyn a darparu ymateb iddi;

(1) 2002 p. 38.

- (b) i'r darparwr gwasanaeth a'r ymchwilydd annibynnol ymgymryd ag ymchwiliad ar y cyd i'r gŵyn mewn modd sy'n briodol i ddatrys y gŵyn yn gyflym ac yn effeithlon;
- (c) i'r person sy'n gwneud cwyn benodedig gael ei hysbysu'n rheolaidd, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, am hynt yr ymchwiliad;
- (d) i ymateb ysgrifenedig gael ei ddarparu i'r person sy'n gwneud cwyn benodedig sy'n crynhoi natur a sylwedd y gŵyn, y casgliadau ac unrhyw gamau gweithredu sydd i'w cymryd o ganlyniad i'r ymchwiliad."

RHAN 3

Dirymiadau ac arbedion

Dirymiadau ac arbedion

6.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r Rheoliadau a bennir yng nghlofn gyntaf y tabl yn yr Atodlen wedi eu dirymu i'r graddau a bennir mewn perthynas â phob un ohonynt yn nhrydedd golofn y tabl hwnnw.

(2) Mae Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010⁽¹⁾ yn parhau mewn grym fel yr oeddent yn cael effaith **ar 31 Mawrth 2021** at ddibenion—

- (a) cynnal neu gwblhau adolygiad o benderfyniad cymhwysol mewn ymateb i gais a gafwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 19 o Reoliadau 2010 (cais am adolygu penderfyniad cymhwysol) cyn **1 Ebrill 2021**;
- (b) gwneud cais yn unol â rheoliad 19 o Reoliadau 2010 am adolygu penderfyniad cymhwysol yr hysbyswyd y ceisydd amdano cyn **1 Ebrill 2021**;
- (c) cynnal adolygiad o benderfyniad cymhwysol ar ôl i Weinidogion Cymru gael cais yn unol ag is-baragraff (b).

(3) Yn y rheoliad hwn—

mae i "ceisydd" ("*applicant*") a "penderfyniad cymhwysol" ("*qualifying determination*") yr un ystyron ag yn Rheoliadau 2010;

(1) O.S. 2010/746 (Cy. 75), a ddiwygiwyd gan O.S. 2012/1479, 2016/211 (Cy. 84), 2017/52 (Cy. 23), 2019/237 (Cy. 56), 2019/976 (Cy. 167), 2019/1094 a 2020/163 (Cy. 31).

ystyr “Rheoliadau 2010” (“*the 2010 Regulations*”) yw Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau’n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010.

RHAN 4

Diwygiadau canlyniadol

Diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005

7.—(1) Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), hepgorer y diffiniadau o “dyfarniad o gymhwyster” a “panel adolygu annibynnol”.

(3) Yn rheoliad 23(1) (cofnod achos darpar fabwysiadydd), hepgorer is-baragraff (e).

(4) Yn rheoliad 29 (cynllun asesu darpar fabwysiadydd), ym mharagraff (dd) hepgorer “neu wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad o dan reoliad 30B(5)(c)”.

(5) Yn rheoliad 30B (penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu)—

(a) ym mharagraff (5)(a) hepgorer “(“dyfarniad o gymhwyster”);

(b) ym mharagraff (5)(c), yn lle “hysbysiad—” hyd at y diwedd rhodder “hysbysiad, gyflwyno unrhyw sylwadau y mae’r darpar fabwysiadydd yn dymuno eu cyflwyno i’r asiantaeth.”;

(c) ym mharagraff (6) hepgorer “nac wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol”;

(d) yn lle paragraff (9) rhodder—

“(9) Rhaid i’r asiantaeth fabwysiadu wneud penderfyniad ar yr achos ond, os yw’r achos wedi’i atgyfeirio i’r panel mabwysiadu o dan baragraff (7), dim ond ar ôl ystyried argymhellion y panel mabwysiadu o dan baragraff (8) a rheoliad 30A y caiff yr asiantaeth wneud y penderfyniad.”;

(e) hepgorer paragraff (11).

(6) Hpgorer rheoliad 30C (gwybodaeth sydd i’w hanfon at y panel adolygu annibynnol).

(1) O.S. 2005/1313 (Cy. 95), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/163 (Cy. 31). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(7) Yn rheoliad 30CH (adolygu a therfynu cymeradwyaeth), ym mharagraff (10), yn lle “rheoliad 30B(2) i (11)” rhodder “rheoliad 30B(2) i (10)”.

(8) Yn rheoliad 30D (dyletswyddau'r asiantaeth fabwysiadu mewn achos adran 83), hepgorer paragraff (ch).

Diwygio Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005

8.—(1) Mae Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 8 (datgelu gwybodaeth adran 56 at ddibenion ymholiadau, archwiliadau etc.), hepgorer paragraff (dd).

(3) Hepgorer rheoliad 13A (adolygu'n annibynnol).

Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Rhagnodedig) (Mabwysiadu gydag Elfen Dramor) (Cymru) 2005

9.—(1) Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Rhagnodedig) (Mabwysiadu gydag Elfen Dramor) (Cymru) 2005(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(5) (pŵer i godi am gyfleusterau sy'n cael eu darparu sy'n ymwneud â mabwysiadu gydag elfen dramor)—

- (a) yn union yn dilyn is-baragraff (b)(i) mewnosoder “neu”;
- (b) yn union yn dilyn is-baragraff (b)(ii) hepgorer “neu”;
- (c) hepgorer is-baragraff (b)(iii).

Diwygio Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018

10.—(1) Mae Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7(4) (asesu darpar rieni maeth), hepgorer is-baragraff (a).

(3) Yn rheoliad 8 (cymeradwyo rhieni maeth)—

- (a) ym mharagraff (6)(a) hepgorer “(“penderfyniad”),”;
- (b) yn lle paragraff (6)(b) rhodder—

(1) O.S. 2005/2689 (Cy. 189). Mewnosodwyd rheoliad 13A gan O.S. 2006/3100 (Cy. 284). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2005/3114 (Cy. 234), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/163 (Cy. 31).

(3) O.S. 2018/1333 (Cy. 260).

“(b) hysbysu’r person y caiff, o fewn 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad, gyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig y mae’r person yn dymuno eu cyflwyno i’r darparwr gwasanaethau maethu.”;

(c) hepgorer paragraff (7);

(d) yn lle paragraff (8) rhodder—

“(8) Os nad yw’r darparwr gwasanaethau maethu yn cael unrhyw sylwadau o fewn y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (6)(b), caiff fwrw ymlaen i wneud ei benderfyniad.”;

(e) hepgorer paragraff (10);

(f) ym mharagraff (11), yn lle “(8), (9)(b) neu (10)” rhodder “(8) neu (9)(b)”;

(g) hepgorer paragraff (12).

(4) Yn rheoliad 9 (adolygu a therfynu cymeradwyaeth)—

(a) ym mharagraff (7)(a) hepgorer “(“penderfyniad”),”;

(b) yn lle paragraff (7)(b) rhodder—

“(b) hysbysu’r rhiant maeth y caiff, o fewn 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad, gyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig y mae’r rhiant maeth yn dymuno eu cyflwyno i’r darparwr gwasanaethau maethu.”;

(c) hepgorer paragraff (8);

(d) yn lle paragraff (9) rhodder—

“(9) Os nad yw’r darparwr gwasanaethau maethu yn cael unrhyw sylwadau o fewn y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (7)(b), caiff fwrw ymlaen i wneud ei benderfyniad.”;

(e) hepgorer paragraff (11);

(f) ym mharagraff (12), yn lle “(9), (10)(b) neu (11)” rhodder “(9) neu (10)(b)”;

(g) hepgorer paragraff (15).

(5) Hpgorer rheoliad 10 (gwybodaeth sydd i’w hanfon i’r panel adolygu annibynnol).

Enw

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion
Cymru
Dyddiad

YR ATODLEN Rheoliad 6

Y Rheoliadau sydd wedi eu dirymu

<i>Y Rheoliadau sydd wedi eu dirymu</i>	<i>Y Cyfeirnod</i>	<i>Graddau'r dirymu</i>
Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010	O.S. 2010/746 (Cy. 75)	Y Rheoliadau cyfan
Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (Darpariaeth Ganlyniadol – Gweithwyr Cymdeithasol) 2012	O.S. 2012/1479	Paragraff 87 o Ran 2 o'r Atodlen (diwygiadau canlyniadol a darpariaeth arall)
Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2016	O.S. 2016/211 (Cy. 84)	Paragraff 116 o Ran 1 o Atodlen 3 (diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n cyfeirio at ddeddfwriaeth sylfaenol sydd wedi ei diddymu gan Ddeddf 2014)
Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2017	O.S. 2017/52 (Cy. 23)	Paragraff 21 o Atodlen 1 (diwygiadau o ganlyniad i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016)
Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth)	O.S. 2019/237 (Cy. 56)	Paragraff 17 o Atodlen 1 (diwygiadau o ganlyniad i gychwyn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016)

2019		
Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2019	O.S. 2019/976 (Cy. 167)	Rheoliad 3 (Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau' n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010)
Rheoliadau Deddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017 (Diwygiadau Canlyniadol) (Gweithwyr Cymdeithasol) 2019	O.S. 2019/1094	Paragraff 23 o Atodlen 3 (diwygiadau o ganlyniad i drosglwyddo swyddogaethau mewn perthynas â gweithwyr cymdeithasol)
Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020	O.S. 2020/163 (Cy. 31)	Paragraff 3 o Atodlen 1 (diwygiadau canlyniadol i reoliadau eraill)
